Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Llywodraeth Cymru Cyllideb Atodol 2025-2026

## Nodyn Esboniadol

---

Chwefror 2026

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG54049, ISBN digidol 978-1-83745-195-1
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

## Cynnwys


1. Cyflwyniad 2

2. Dyraniadau Allweddol 3

3. Newidiadau i Gyllideb Cymru ers Cyllideb Atodol gyntaf 2025-26 9

4. Trosglwyddiadau rhwng Portffolios y Gweinidogion 20

5. Trosglwyddiadau o fewn Portffolios y Gweinidogion 23

6. Newidiadau i Gronfeydd Wrth Gefn 27

7. Cyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) 33

33

Atodiad 1 – Cysoni rhwng Cyllidebau'r Portffolios yn Nhablau'r Camau Gweithredu a'r rhai yng Nghynnig y Gyllideb 36

Atodiad 2 – Geirfa 38


Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gynnwys y ddogfen hon cysylltwch â: wag-en@mailuk.custhelp.com

## 1. Cyflwyniad

**1.1** Heddiw, cyflwynodd Llywodraeth Cymru yr ail gyllideb atodol ar gyfer 2025-26, yn unol â Rheol Sefydlog 20. Mae'r gyllideb atodol hon yn cynnig newidiadau i'r Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2025-26 fel y'i cymeradwywyd gan Senedd Cymru ('y Senedd') ar 8 Gorffennaf 2025.

**1.2** Mae'r gyllideb atodol hon yn unioni dyraniadau i gronfeydd wrth gefn ac ohonynt, a throsglwyddiadau o fewn portffolios a rhyngddynt. Mae hefyd yn cynnwys addasiadau i gyllideb Cymru i adlewyrchu effaith digwyddiadau cyllidol Llywodraeth y DU.

**1.3** Ceir crynodeb o'r newidiadau a gynigir yn y gyllideb hon yn y penodau canlynol.

**1.4** Mae'r ddogfen hon yn ategu'r tablau manwl, 'Tablau Llinellau Gwariant y Gyllideb (BEL)', sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

# 2. Dyraniadau Allweddol

## 2.1 Cyllid ar gyfer dyfarniadau cyflog y sector cyhoeddus

Mae **£125.8m** wedi'i ddyrannu ar draws y Prif Grwpiau Gwariant (MEGs) i gefnogi'r sector cyhoeddus datganoledig i dalu cynnydd mewn costau staff o ganlyniad i ddyfarniadau cyflog y sector cyhoeddus yn 2025-26.

Mae'r tabl isod yn nodi'r dyraniadau MEG. Mae'r dadansoddiad o'r dyraniadau hyn yn ôl Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL), i'w weld yn y tabl Cronfeydd Wrth Gefn sy'n atodiad i'r nodyn Esboniadol hwn..

| **DYRANIADAU CYFLOG** | |
|---|---|
| **PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG)** | **£m** |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 87.665 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 15.240 |
| Addysg | 16.428 |
| Trafnidiaeth | 2.244 |
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | 1.201 |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | 0.811 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 0.105 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 2.136 |
| **Cyfanswm y Dyraniadau Cyflog i MEGs Llywodraeth Cymru** | **125.830** |

## 2.2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae cyllid refeniw ychwanegol o **£200m** wedi'i ddyrannu i'r MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gefnogi gwasanaethau rheng flaen y GIG gyda phwysau yn ystod y flwyddyn a pharhau i gefnogi'r GIG i gynnal cynnydd yn erbyn ei flaenoriaeth o leihau amseroedd aros yn 2025-26.

## 2.3 Trafnidiaeth

Mae **£72.2m** yn ychwanegol o gyllid cyfalaf wedi'i ddyrannu i'r MEG Trafnidiaeth i dalu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â cherbydau rheilffyrdd ar y rhwydwaith rheilffyrdd. Bydd hyn yn cefnogi gwaith i addasu a datgarboneiddio fflyd trenau Trafnidiaeth Cymru.

## 2.4 Addysg

Mae **£60.5m** o gyllid cyfalaf ychwanegol wedi'i ddyrannu i'r MEG Addysg i gefnogi rhaglenni cyfalaf yn ein hysgolion, sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch. Mae hyn yn cynnwys:

- £35m i gefnogi gwaith atgyweirio a chynnal a chadw cyfalaf hanfodol ar draws ysgolion a cholegau yng Nghymru. Bydd y cyllid hwn, sy'n rhan o'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, yn cefnogi gwaith cynnal a chadw ar raddfa fawr fel ailosod toeau, systemau ffenestri, systemau gwresogi ac awyru, a gwaith trydanol; a

- £25.5m i gefnogi'r sectorau Addysg Uwch ac Addysg Bellach yn gyfartal gyda thrawsnewid cyfalaf a chynnal a chadw cyfalaf Buddsoddi i Arbed.

- Mae'r MEG Addysg hefyd wedi cael dyraniad o **£2,584.4m** heb fod yn arian parod i'r gyllideb wedi'i chlustnodi ar gyfer benthyciadau i fyfyrwyr. Mae hyn yn dilyn newid i'r model prisio benthyciadau i fyfyrwyr sy'n gwneud y model a ddefnyddir yng Nghymru yn gydnaws â'r model a ddefnyddir gan Adran Addysg Llywodraeth y DU.

## 2.5 Dyraniadau eraill i Gronfeydd Wrth Gefn ac ohonynt

Mae swm pellach o **£150.8m** yn cael ei unioni yn y gyllideb atodol hon. Mae'r dyraniadau yn cynnwys cyllid wedi'i glustnodi sydd wedi dod i law oddi wrth adrannau eraill o'r llywodraeth, cymorth ar gyfer pwysau sy'n dod i'r amlwg, a galluogi newid rhwng cyfalaf a refeniw.

Mae symudiadau MEG allweddol yn cynnwys:

### Iechyd a Gofal Cymdeithasol

- Mae **£73.9m** o refeniw wedi'i ddyrannu o gronfeydd wrth gefn i adlewyrchu'r cyllid a ddaeth i law oddi wrth Lywodraeth y DU mewn perthynas â'r Gordal Iechyd Mewnfudo;

- Mae **£11.4m** o gyfalaf cyffredinol wedi'i ddyrannu o gronfeydd wrth gefn i sefydlu datblygu rhaglen ymchwil a datblygu er budd cleifion a'r cyhoedd;
- Mae **£65m** (£35m IFRS16 a £30m  o gyfalaf cyffredinol) wedi'i ddychwelyd i gronfeydd wrth gefn i gefnogi blaenoriaethau ehangach ar draws Llywodraeth Cymru.

## Tai a Llywodraeth Leol

- Mae **£37.9m**  o gyfalaf cyffredinol wedi'i ddychwelyd i gronfeydd wrth gefn yn gyfnewid am y defnydd o danwariant cyfalaf trafodiadau ariannol. Mae'r cyfalaf cyffredinol hwn wedi'i ddefnyddio i gefnogi blaenoriaethau eraill ar draws Llywodraeth Cymru;
- Mae **£5m** o refeniw wedi'i ddyrannu ar gyfer gwelliannau drwy waith gwella ar raddfa fach gyda'r nod o gynyddu balchder mewn ardaloedd lleol;
- Mae **£4.8m**  o gyllid cyfalaf cyffredinol wedi dod i law oddi wrth Lywodraeth y DU a'i glustnodi ar gyfer Tai Fforddiadwy.
- Mae **£1.6m** o refeniw wedi'i ddyrannu o gronfeydd wrth gefn i gefnogi cofrestru pleidleiswyr absennol yn amserol ar gyfer etholiadau'r Senedd yn 2026 ac i gefnogi'r costau sy'n gysylltiedig ag Is-etholiad Caerffili yn ystod 2025;
- **£1.2m** o gyfalaf trafodiadau ariannol i gefnogi'r rhaglen Cartrefi Gwyrdd.

## Addysg

- Mae **£2.9m** o refeniw wedi'i ildio i Drysorlys EF. Darparwyd dyraniad wedi'i glustnodi o £3.671m gan Lywodraeth y DU yn 2025-26 i ddigolledu am TAW y disgwylir iddi gael ei chodi ar bob lleoliad arbenigol ôl-16 ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn dilyn penderfyniad Llywodraeth y DU i ddileu'r esemptiad rhag TAW ar ffioedd ysgolion/colegau annibynnol o 1 Ionawr 2025. Mae'r amcangyfrifon diweddaraf o TAW sy'n cael ei chodi ar y lleoliadau hyn gan ddarparwyr yn is na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol.

## Trafnidiaeth

- Mae **£25.7m** o gyfalaf cyffredinol wedi'i ddyrannu i'r MEG Trafnidiaeth i gefnogi pwysau yn ystod y flwyddyn a gweithgarwch ychwanegol ar brosiect Trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd;
- Mae **£129.7m** o adnodd anghyllidol wedi'i ddyrannu mewn perthynas â dibrisiant sy'n ymwneud â Trafnidiaeth Cymru.

## Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

- Mae **£57m** o adnodd anghyllidol wedi'i ddyrannu fel cyllideb gyffredinol i gefnogi costau heb fod yn arian parod o fewn y portffolio;
- Mae **£0.4m** o refeniw a **£9.1m** o gyfalaf cyffredinol wedi'u dyrannu o gronfeydd wrth gefn i adlewyrchu'r cyllid a ddaeth i law oddi wrth Lywodraeth y DU i gefnogi cynhyrchu ynni adnewyddadwy lleol;
- Mae **£0.4m** o refeniw a **£17.5m** o gyllid cyfalaf cyffredinol a glusntnodwyd wedi'u hildio i Drysorlys EF. Dyrannwyd y cyllid o Drysorlys EF i gefnogi'r gwaith o adeiladu Safleoedd Rheolaethau'r Ffin yn Sir Benfro. Mae'r gwaith hwn wedi'i atal ar hyn o bryd wrth inni aros am ganlyniad trafodaethau Llywodraeth y DU a'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r cyllid hwn, nad ydym bellach yn disgwyl ei wario yn 2025-26, wedi'i ddychwelyd ac fe gaiff ei ailbroffilio lle bo'n briodol i'r blynyddoedd i ddod;
- Mae **£5.3m** o gyfalaf trafodiadau ariannol wedi'i ddyrannu i gefnogi gwaith datgarboneiddio ac addasu yn y sector cyhoeddus.

## Yr Economi, Ynni a Chynllunio

- Mae refeniw o **£70m** wedi'i ildio i gronfeydd wrth gefn yn dilyn gwerthiant eiddo eithriadol. Cafodd hyn ei ailbwrpasu i gefnogi blaenoriaethau eraill ar draws Llywodraeth Cymru;

- Mae **£8.7m** o refeniw a **£10.8m** o gyfalaf wedi'u dyrannu o gronfeydd wrth gefn yn dilyn dyraniadau oddi wrth Lywodraeth y DU mewn perthynas â Pharthau Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam;
- Mae **£4.2m** o refeniw wedi'i ddyrannu o gronfeydd wrth gefn yn dilyn dyraniad gan Lywodraeth y DU i gefnogi'r rhaglen Blaengaredd sy'n cefnogi dulliau lleol o leihau anweithgarwch economMaidd;
- Mae **£10m** o gyllid cyfalaf cyffredinol wedi'i glustnodi wedi'i ddychwelyd i Drysorlys EF ac fe gaiff ei ailbroffilio i'r blynyddoedd i ddod i gefnogi Morglawdd Caergybi;
- Mae **£20m** o gyfalaf trafodiadau ariannol wedi'i ddychwelyd i gronfeydd wrth gefn mewn perthynas â Morglawdd Caergybi; mae hyn yn ymwneud ag ailbroffilio gwariant. Aed i'r afael â'r costau yn 2026-27 drwy Gyllideb Derfynol 2026-27.

## Cyfiawnder Cymdeithasol

- Mae **£0.2m** o refeniw a **£0.3m** o gyfalaf cyffredinol wedi'u dyrannu o gronfeydd wrth gefn ar ôl cael cyllid wedi'i glustnodi oddi wrth Lywodraeth y DU mewn perthynas â Chynhwysiant Digidol;
- Mae **£0.8m** o refeniw wedi'i ddyrannu o gronfeydd wrth gefn ar ôl cael cyllid wedi'i glustnodi oddi wrth Lywodraeth y DU i gefnogi'r rhaglen Cartrefi i Wcráin;
- Mae **£1m** o gyfalaf cyffredinol wedi'i ddyrannu o gronfeydd wrth gefn i gefnogi'r galw yn erbyn y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol;
- Mae **£1.5m** o gyfalaf trafodiadau ariannol i gefnogi'r Gronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol.

## Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

- Mae **£4.3m** o refeniw wedi'i ddyrannu o gronfeydd wrth gefn i gefnogi pwysau o ran costau staff.

## 3. Newidiadau i Gyllideb Cymru ers Cyllideb Atodol gyntaf 2025-26

**3.1** Mae tablau 3.1 i 3.4 isod yn nodi effaith net yr holl newidiadau i gyllideb Cymru. Mae tabl 3.5 yn crynhoi cyfanswm y dyraniadau yn ôl MEG

## Tabl 3.1 – Ffynonellau Cyllid Llywodraeth Cymru

| ELFENNAU CYLLIDO LLYWODRAETH CYMRU | Cyllideb Atodol 2025-26 Mehefin 2025 | Newid-iadau | Cyllideb Atodol 2025-26 Cynlluniau Newydd Chwefror 2026 |
|---|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| **CYLLIDO ADNODDAU** | | | |
| **Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):** | | | |
| Cyllidol | 18,010,901 | 124,692 | 18,135,593 |
| Anghyllidol | 1,237,929 | 2,455,756 | 3,693,685 |
| Tynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru | 40,000 | 245,901 | 285,901 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):** | | | |
| Cyllidol | 35,357 | 13,817 | 49,174 |
| Anghyllidol | 227,928 | 361,437 | 589,365 |
| **Cyllido a Ddatganolwyd i Gymru:** | | | |
| Ardrethi Annomestig | 1,078,000 | 0 | 1,078,000 |
| Cyfradd Treth Incwm Cymru | 3,602,716 | 0 | 3,602,716 |
| Y Dreth Trafodiadau Tir | 342,912 | 31,392 | 374,304 |
| Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | 32,833 | 1,438 | 34,271 |
| Ad-dalu prifswm benthyca | -10,602 | 0 | -10,602 |
| **CYFANSWM CYLLIDO ADNODDAU** | **24,597,974** | **3,234,433** | **27,832,407** |
| **CYLLIDO CYFALAF** | | | |
| **Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):** | | | |
| Cyffredinol | 3,292,412 | -664 | 3,291,748 |
| Tynnu cyffredinol i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru | 0 | 53,395 | 53,395 |
| Trafodiadau Ariannol | 85,130 | -6,165 | 78,965 |
| Tynnu Trafodiadau Ariannol i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru | 0 | 10,704 | 10,704 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):** | | | |
| Cyfalaf | 1,392,753 | 145,992 | 1,538,745 |
| **Cyllido a Ddatganolwyd i Gymru:** | | | |
| Benthyca | 150,000 | 0 | 150,000 |
| **CYFANSWM CYLLIDO CYFALAF** | **4,920,295** | **203,262** | **5,123,557** |
| **CYFANSWM CYLLIDO CYMRU** | **29,518,269** | **3,437,695** | **32,955,964** |

## Tabl 3.2 – Dyrannu Cyllideb Cymru

| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG) | | £000oedd | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Cyllideb Atodol 2025-26 Mehefin 2025 | Newidiadau | Cyllideb Atodol 2025-26 Cynlluniau Newydd Chwefror 2026 |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | | 13,452,863 | 440,673 | 13,893,536 |
| Tai a Llywodraeth Leol | | 7,956,957 | 9,452 | 7,966,409 |
| Addysg | | 3,732,073 | 2,790,742 | 6,522,815 |
| Trafnidiaeth | | 1,423,969 | 452,050 | 1,876,019 |
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | | 923,474 | 83,072 | 1,006,546 |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | | 931,099 | -69,703 | 861,396 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | | 162,259 | 3,441 | 165,700 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | | 465,280 | 5,644 | 470,924 |
| **Cyfanswm y Dyraniad i MEGs Llywodraeth Cymru** | | **29,047,974** | **3,715,371** | **32,763,345** |
| Adnoddau heb eu Dyrannu | Adnoddau Cyllidol | 1,849 | 40,384 | 42,233 |
| | Adnoddau Anghyllidol | 339,732 | -335,206 | 4,526 |
| Cyfalaf heb ei Ddyrannu | Cyfalaf Cyffredinol | 37,581 | -7,367 | 30,214 |
| | Trafodiadau Ariannol | -13,720 | 28,524 | 14,804 |
| Comisiwn y Senedd | | 84,618 | -4,002 | 80,616 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | | 6,476 | -16 | 6,460 |
| Swyddfa Archwilio Cymru | | 10,180 | 0 | 10,180 |
| Y Comisiwn Etholiadol | | 2,742 | 1 | 2,743 |
| Symiau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | | 837 | 6 | 843 |
| **CYFANSWM CYLLIDEB CYMRU** | | **29,518,269** | **3,437,695** | **32,955,964** |

## Tabl 3.3 – Newidiadau i Ddyraniadau MEG Adnoddau Llywodraeth Cymru

| **PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG)** | **£000oedd** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **CYLLIDOL** | | | **ANGHYLLIDOL** | | |
| | **Cyllideb Atodol 2025-26 Mehefin 2025** | **Newidiadau** | **Cyllideb Atodol 2025-26 Cynlluniau Newydd Chwefror 2026** | **Cyllideb Atodol 2025-26 Mehefin 2025** | **Newid-iadau** | **Cyllideb Atodol 2025-26 Cynlluniau Newydd Chwefror 2026** |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 12,234,676 | 361,521 | 12,596,197 | 325,509 | 14,523 | 340,032 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 5,575,753 | 21,864 | 5,597,617 | 0 | 0 | 0 |
| Addysg | 1,819,348 | 18,105 | 1,837,453 | 267,594 | 2,584,373 | 2,851,967 |
| Trafnidiaeth | 666,081 | 6,874 | 672,955 | 226,691 | 129,661 | 356,352 |
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | 582,882 | 7,106 | 589,988 | 20,938 | 62,399 | 83,337 |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | 472,372 | -50,492 | 421,880 | 32,728 | 6 | 32,734 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 142,205 | 671 | 142,876 | 487 | 0 | 487 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 428,233 | 5,083 | 433,316 | 18,538 | 0 | 18,538 |
| **Cyfanswm y Dyraniad i MEGs Llywodraeth Cymru** | **21,921,550** | **370,732** | **22,292,282** | **892,485** | **2,790,962** | **3,683,447** |

## Tabl 3.4 – Newidiadau i Ddyraniadau MEG Cyfalaf Llywodraeth Cymru

| **PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG)** | **£000oedd** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **CYFALAF CYFFREDINOL** | | | **TRAFODIADAU ARIANNOL** | | |
| | **Cyllideb Atodol 2025-26 Mehefin 2025** | **Newid-iadau** | **Cyllideb Atodol 2025-26 Cynlluniau Newydd Chwefror 2026** | **Cyllideb Atodol 2025-26 Mehefin 2025** | **Newid-iadau** | **Cyllideb Atodol 2025-26 Cynlluniau Newydd Chwefror 2026** |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 623,225 | -46,437 | 576,788 | 0 | 0 | 0 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 1,196,280 | -23,280 | 1,173,000 | 72,862 | 1,200 | 74,062 |
| Addysg | 374,500 | 55,500 | 430,000 | -1,941 | 0 | -1,941 |
| Trafnidiaeth | 529,197 | 98,440 | 627,637 | 0 | 0 | 0 |
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | 302,654 | -21,921 | 280,733 | 10,000 | 5,315 | 15,315 |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | 342,996 | -8,217 | 334,779 | 16,478 | -32,000 | -15,522 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 17,890 | 1,270 | 19,160 | 1,451 | 1,500 | 2,951 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 15,309 | 561 | 15,870 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y Dyraniad i MEGs Llywodraeth Cymru** | **3,402,051** | **55,916** | **3,457,967** | **98,850** | **-23,985** | **74,865** |

**3.2** Darperir trosolwg o'r newidiadau i'r ffynonellau cyllid isod ac mae manylion dyraniadau o gronfeydd wrth gefn i'w gweld yn adran 6.

## Addasiadau i Ffynonellau Cyllid

### Adnoddau Cyllidol

**3.3** Cafwyd cynnydd net o £124,692k i'r llinell sylfaen Adnoddau Cyllidol, sy'n cynnwys:

- Cynnydd o symiau canlyniadol Barnett yn dod i gyfanswm o £43,743k ac yn cynnwys:
    - £5,231k sy'n deillio o Adolygiad Gwariant Llywodraeth y DU 2025;
    - £26,991k sy'n deillio o Gyllideb Hydref 2025 Llywodraeth y DU;
    - £11,521k a ddaeth i law adeg Amcangyfrifon Atodol Llywodraeth y DU ym mis Ionawr 2026;
- Trosglwyddiad net i mewn o £1,095k o'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) sy'n cynnwys:
    - £564k mewn perthynas â Chronfa Fuddsoddi'r Cynllun Gwirfoddol ar gyfer Prisio, Mynediad a Thwf Meddyginiaethau wedi'u Brandio (VPAG) – Asesiad Technoleg Iechyd;
    - £446k mewn perthynas â'r Cynllun Cymorth Gwaed sydd wedi'i Heintio â HIV;
    - £85k mewn perthynas â chostau cyfreithiol a gweinyddol y Cynllun Cymorth Gwaed sydd wedi'i Heintio â HIV;
- Trosglwyddiad i mewn o £62,337k oddi wrth y Swyddfa Gartref mewn perthynas â'r balans sy'n ddyledus am 2025-26 ar gyfer y Gordal Iechyd Mewnfudo;
- Trosglwyddiad i mewn o £500k oddi wrth y Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn perthynas â dyfarniad cyflog 2024-25 a 2025-26 ar gyfer staff y sector cyhoeddus sy'n darparu darpariaeth dysgu a sgiliau yng ngharchardai De Cymru;
- Trosglwyddiadau i mewn gwerth cyfanswm o £11,328k oddi wrth y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) sy'n cynnwys:

    - £8,700k ar gyfer Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam;
    - £535k mewn perthynas â'r Grant Cyflymu Safleoedd;
    - £413k mewn perthynas â Thariff Chwarter 4 2024/25 y Gronfa Cartrefi i Wcráin;
    - £421k mewn perthynas â Thariff Chwarter 1 2025/26 y Gronfa Cartrefi i Wcráin;
    - £500k mewn perthynas ag ymyriad cadwyn gyflenwi TATA;
    - £759k mewn perthynas â Chronfa Hyblyg Dechrau Busnes, Gwydnwch a Thwf Busnes TATA;
- Trosglwyddiad o £5k i mewn oddi wrth Gyllid a Thollau EF (CThEF) mewn perthynas ag amodoldeb i daclo'r economi gudd;
- Trosglwyddiadau i mewn gwerth cyfanswm o £5,030k oddi wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) sy'n cynnwys:
    - £4,240k mewn perthynas â'r rhaglen Blaengaredd;
    - £790k mewn perthynas â'r prosiect Lleoliad a Chymorth i Unigolion mewn Gofal Sylfaenol (IPSPC);
- Trosglwyddiadau i mewn gwerth £660k oddi wrth yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg (DSIT) sy'n cynnwys:
    - £475k mewn perthynas â'r Gronfa Ddiogelwch Integredig;
    - £185k ar gyfer Cynhwysiant Digidol;
- Trosglwyddiadau i mewn gwerth £1,132k oddi wrth yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net (DESNZ) sy'n cynnwys:
    - £700k mewn perthynas â Cham 2 Peilot Sgiliau Rhanbarthol Sir Benfro gyda Llywodraeth y DU;
    - £432k mewn perthynas â GB Energy;
- Trosglwyddiad i mewn o £11,563k oddi wrth Drysorlys EF mewn perthynas ag addasiad Gordal Iechyd Mewnfudo 2024/25;
- Trosglwyddiad i mewn o £590k oddi wrth Drysorlys EF mewn perthynas â chywiriad am gamgymeriad y flwyddyn flaenorol mewn perthynas â gwasanaethau cynghori ariannol;

- Trosglwyddiad i mewn o £533k oddi wrth Drysorlys EF mewn perthynas â chysoniad Barnett cronfa drawsnewid Cam 2 Adolygiad Gwariant Llywodraeth y DU
- Trosglwyddiad o £203k oddi wrth Drysorlys EF mewn perthynas ag ad-daliad rheoli arian parod;
- Trosglwyddiad £2,880k allan i Drysorlys EF mewn perthynas â TAW ar leoliad arbenigol ôl-16;
- Trosglwyddiad o £357k mewn perthynas â ffiniau;
- Gostyngiad o £10,790m o ganlyniad i ddiwygiad i'r addasiad i'r grant bloc.

Mae **£245,901k** o adnodd cyllidol hefyd wedi'i dynnu o Gronfa Wrth Gefn Cymru.

## Adnoddau Anghyllidol

**3.4** Ers y Gyllideb Atodol Gyntaf cafwyd cynnydd o £2,455,756k yn y llinell sylfaen adnoddau anghyllidol, sy'n cynnwys £77,000k mewn dibrisiant cyffredinol a £2,378,756k oherwydd newid mewn Benthyciadau i Fyfyrwyr.

## Cyllido Datganoledig Cymru

**3.5** Mae'r rhagolwg incwm o drethi datganoledig wedi cynyddu £32,830k ers y gyllideb atodol gyntaf.

Mae'r swm y mae ei angen i ad-dalu prifswm benthyca wedi aros heb ei newid, sef £10,602k.

## Cyfalaf Cyffredinol

**3.6** Cafwyd gostyngiad o swm net o £664k yn y llinell sylfaen cyfalaf cyffredinol ers y Gyllideb Atodol Gyntaf, sy'n cynnwys:

- Gostyngiad o symiau canlyniadol Barnett yn dod i gyfanswm o £4,572k ac yn cynnwys:
  - £1,028k a ddidynnwyd adeg Adolygiad Gwariant Llywodraeth y DU 2025;

- £3,544k a ddidynnwyd adeg Amcangyfrifon Atodol Llywodraeth y DU ym mis Ionawr 2026;

- Trosglwyddiadau allan gwerth cyfanswm o £37,582k i Drysorlys EF sy'n cynnwys:
    - £17,480k mewn perthynas â ffiniau;
    - £10,102k mewn perthynas â bargeinion dinesig a thwf;
    - £10,000k mewn perthynas â morglawdd Caergybi;
- Trosglwyddiadau i mewn gwerth cyfanswm o £15,893k oddi wrth y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) sy'n cynnwys:
    - £10,800k mewn perthynas â Pharth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam;
    - £4,828k mewn perthynas â chanlyniad Ymchwiliad Adeiladu Tai Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd y DU i raglenni tai fforddiadwy;
    - £265k ar gyfer y Grant Cyflymu Safleoedd;
- Trosglwyddiadau i mewn gwerth £3,811k oddi wrth yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg (DSIT) sy'n cynnwys:
    - £2,233k mewn perthynas â Datblygiadau Ymchwil Gwella Data Iechyd;
    - £1,323k ar gyfer Rhaglen Ymchwil QuicDNA Max;
    - £185k ar gyfer Cynhwysiant Digidol – Ymchwil a Datblygu;
    - £70k ar gyfer Cynhwysiant Digidol;
- Trosglwyddiadau i mewn gwerth £13,863k oddi wrth yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net (DESNZ) sy'n cynnwys:
    - £4,800k ar gyfer Hwb Hydrogen Caergybi;
    - £432k mewn perthynas â GB Energy;
    - £6,615k ar gyfer GB Energy – Cyllid Ychwanegol;
- Trosglwyddiadau i mewn gwerth cyfanswm o £7,923k oddi wrth yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) yn cynnwys:
    - £6,850k ar gyfer Cronfa Fuddsoddi VPAG – y Rhaglen Treialon Clinigol;

- £1,073k mewn perthynas â Chronfa Fuddsoddi VPAG - Cymrodoriaeth Ymchwil Fasnachol mewn Gofal Sylfaenol.

Mae **£53,395k** o gyfalaf cyffredinol hefyd wedi'i dynnu o Gronfa Wrth Gefn Cymru.

## Cyfalaf Trafodiadau Ariannol

**3. 7** Mae'r llinell sylfaen cyfalaf trafodiadau ariannol wedi gostwng £6,165k ers y Gyllideb Atodol Gyntaf o ganlyniad i ganlyniadau Barnett sy'n deillio o'r Amcangyfrifon Atodol.

Mae cyfalaf trafodiadau ariannol o **£10,704k** hefyd wedi'i dynnu o Gronfa Wrth Gefn Cymru.

## Tabl 3.5 – Crynodeb o Gyfanswm Dyraniadau MEG Llywodraeth Cymru

| | **CYFANSWM DYRANIADAU MEG 2025-26 yn ôl y GYLLIDEB ATODOL** | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£000oedd** | | | | | | | | | |
| | **Adnoddau** | | | **Cyfalaf** | | | **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)** | | | **CYFANSWM DYRANIAD MEG** |
| **PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs)** | **Cyllidol** | **Anghyll-idol** | **Cyfanswm Adnoddau** | **Cyffredinol** | **Trafod-iadau Ariannol** | **Cyfanswm Cyfalaf** | **Adnoddau** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm AME** | |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 12,596,197 | 340,032 | **12,936,229** | 576,788 | 0 | **576,788** | 353,524 | 26,995 | **380,519** | **13,893,536** |
| Tai a Llywodraeth Leol | 5,597,617 | 0 | **5,597,617** | 1,173,000 | 74,062 | **1,247,062** | 1,121,730 | 0 | **1,121,730** | **7,966,409** |
| Addysg | 1,837,453 | 2,851,967 | **4,689,420** | 430,000 | -1,941 | **428,059** | -106,941 | 1,512,277 | **1,405,336** | **6,522,815** |
| Trafnidiaeth | 672,955 | 356,352 | **1,029,307** | 627,637 | 0 | **627,637** | 219,075 | 0 | **219,075** | **1,876,019** |
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | 589,988 | 83,337 | **673,325** | 280,733 | 15,315 | **296,048** | 37,700 | -527 | **37,173** | **1,006,546** |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | 421,880 | 32,734 | **454,614** | 334,779 | -15,522 | **319,257** | 87,525 | 0 | **87,525** | **861,396** |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 142,876 | 487 | **143,363** | 19,160 | 2,951 | **22,111** | 226 | 0 | **226** | **165,700** |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 433,316 | 18,538 | **451,854** | 15,870 | 0 | **15,870** | 3,200 | 0 | **3,200** | **470,924** |
| **CYFANSWM Y DYRANIADAU I MEGs LLYWODRAETH CYMRU** | **22,292,282** | **3,683,447** | **25,975,729** | **3,457,967** | **74,865** | **3,532,832** | **1,716,039** | **1,538,745** | **3,254,784** | **32,763,345** |

## 4. Trosglwyddiadau rhwng Portffolios y Gweinidogion

**4.1** Cafwyd trosglwyddiadau lluosog rhwng portffolios y Gweinidogion yn y gyllideb atodol hon, gan wneud cyfanswm o £39,526k. Crynhoir effaith net y trosglwyddiadau ar bob un o'r MEGs yn y tabl isod:

| | Adnoddau Cyllidol £'000 | | | Cyfalaf £'000 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **I** | **O** | **Trosglwyddiadau Net** | **I** | **O** | **Trosglwyddiadau Net** |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 7,603 | -9,532 | -1,929 | 8,499 | -1,618 | 6,881 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 60 | 0 | 60 | 10,000 | -175 | 9,825 |
| Addysg | 4,081 | -24 | 4,057 | - | -5,000 | -5,000 |
| Trafnidiaeth | - | - | - | 587 | - | 587 |
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | - | -170 | -170 | - | -13,504 | -13,504 |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | 353 | -40 | 313 | 650 | - | 650 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 55 | -558 | -503 | - | - | - |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 6,020 | -7,848 | -1,828 | 1,618 | -1,057 | 561 |
| | **18,172** | **-18,172** | **-** | **21,354** | **-21,354** | **-** |

**4.2** Mae manylion y trosglwyddiadau dros £1m fel a ganlyn:

Adnoddau Cyllidol

**4.3** Mae £4,031k wedi'i drosglwyddo o'r BEL Addysg a Hyfforddiant o fewn y MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'r BEL Gwariant Rhaglenni Medr o fewn y MEG Addysg. Mae'r trosglwyddiad yn ymwneud â rhaglen ehangu meddygol Gogledd a Gorllewin Cymru.

**4.4** Mae'r cyfrifoldeb cyllidebol dros yr elfen Plant â Phrofiad o fod mewn Gofal yn y gronfa Buddsoddi i Arbed wedi'i drosglwyddo o'r MEG

Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu i'r MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Sefydlwyd y gronfa Plant â Phrofiad o fod mewn Gofal (y gronfa Plant sy'n Derbyn Gofal gynt) i hyrwyddo ymrwymiad Llywodraeth Cymru tuag at lesiant plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal fel yr amlinellir yn y Rhaglen Lywodraethu. Y trosglwyddiad cyllidebol sy'n cynnwys:

- Trosglwyddiad o £7,603k o BEL Ad-daliad y Gronfa Buddsoddi i Arbed o fewn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu i'r MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol (y BEL wedi'i ailenwi'n Ad-daliad y Gronfa Newid ar gyfer Plant â Phrofiad o fod mewn Gofal)
- Trosglwyddiad cyllideb credyd o £5,351k o'r BEL Buddsoddi i Arbed o fewn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu i'r MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol (y BEL wedi'i ailenwi'n Gronfa Newid ar gyfer Plant â Phrofiad o fod mewn Gofal)

## Cyfalaf Cyffredinol

**4.6** Mae £5,000k wedi'i drosglwyddo o'r BEL Seilwaith Addysg o fewn y MEG Addysg i'r BEL Cyllid Cyfalaf Cyffredinol Llywodraeth Leol o fewn y MEG Tai. Mae'r trosglwyddiad yn ymwneud â'r Grant Gwres Carbon Isel.

**4.7** Mae £5,000k wedi'i drosglwyddo o'r BEL Effeithlonrwydd Adnoddau ac Economi Gylchol o fewn y MEG Newid Hinsawdd a Materion Gwledig i'r BEL Cymorth Ariannol Brys o fewn y MEG Tai. Mae'r trosglwyddiad yn ymwneud â gwaith adfer mewn perthynas â digwyddiadau unigol yn dilyn stormydd mawr blaenorol.

**4.8** Cafwyd tri throsglwyddiad o BEL Gwasanaethau Ynni Llywodraeth Cymru o fewn y MEG Newid Hinsawdd a Materion Gwledig i BEL Gwasanaethau Craidd y GIG o fewn y BEL Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r rhain yn cynnwys £3,536k ar gyfer rhaglen ddatgarboneiddio Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan; £2,231k ar gyfer rhaglen ddatgarboneiddio Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda; a £1,500k ar gyfer rhaglen ddatgarboneiddio Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

**4.9** Mae'r cyfrifoldeb cyllidebol dros Fuddsoddi i Arbed - Plant â Phrofiad o fod mewn Gofal wedi'i drosglwyddo o'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu i'r MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol fel y nodir ym mharagraff 4.4 uchod, sy'n cynnwys:

- Trosglwyddiad o £1,057k o'r BEL Buddsoddi i Arbed o fewn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu i'r MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol (y BEL wedi'i ailenwi'n Gronfa Newid ar gyfer Plant â Phrofiad o fod mewn Gofal)
- Trosglwyddiad cyllideb credyd o £1,618k o BEL Ad-daliad y Gronfa Buddsoddi i Arbed o fewn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu i'r MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol (y BEL wedi'i ailenwi'n Ad-daliad y Gronfa Newid ar gyfer Plant â Phrofiad o fod mewn Gofal)

## 5. Trosglwyddiadau o fewn Portffolios y Gweinidogion

**5.1** Yn ogystal â'r trosglwyddiadau rhwng Portffolios y Gweinidogion a nodir ym mhennod 4, mae nifer o drosglwyddiadau rhwng BELs o fewn yr un portffolios a gynhwysir yn y Tablau BELs cyhoeddedig. Mae'r trosglwyddiadau sy'n fwy nag £1m i'w gweld isod:

### Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**5.2** Cafwyd trosglwyddiadau adnoddau lluosog gwerth cyfanswm o £176,526k rhwng BELs o fewn y MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae llawer o'r rhain yn rhan o ymarfer mapio cyflog ac mae eraill yn cynnwys:

- Trosglwyddo £48,426k o'r BEL Ymchwil a Datblygu i BEL Dyraniadau Craidd y GIG;
- Trosglwyddo £49,000k o BEL Dyraniadau Craidd y GIG i BEL Dyraniadau Uniongyrchol Eraill y GIG;
- £1,706k o'r BEL Addysg a Hyfforddiant i BEL y Gweithlu (GIG) mewn perthynas â Rhaglen Ehangu Meddygol Gogledd a Gorllewin Cymru i Israddedigion.

### Tai a Llywodraeth Leol

**5.3** Cafwyd trosglwyddiadau adnoddau lluosog gwerth cyfanswm o £52,900k rhwng BELs o fewn y MEG Tai a Llywodraeth Leol . Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Trosglwyddo £35,000k rhwng nifer o BELs i ailbroffilio cyllidebau Tai ac Adfywio, sy'n cynnwys:
  - £5,595k o'r BEL Grantiau Tai Cymdeithasol;
  - £4,619k o BEL Tai'r Farchnad a Chynlluniau Eraill;
  - £7,786k o'r BEL Cartrefi Cynnes;
  - £17,000k o BEL y Gronfa Rhyddhau Tir;
  - £15,000k i'r BEL Eiddo Preswyl: Datgarboneiddio ac Ansawdd;

- £20,000k i'r BEL Atgyweiriadau Mawr a Llenwi'r Bwlch Gwaddoli;

- Trosglwyddo £14,100k i'r BEL Eiddo Preswyl: Datgarboneiddio ac Ansawdd o BEL Tai'r Farchnad a Chynlluniau Eraill;
- Trosglwyddo £3,800k i'r BEL Eiddo Preswyl: Datgarboneiddio ac Ansawdd o'r BEL Lwfans Atgyweiriadau Mawr a Chyllid Llenwi'r Bwlch Gwaddoli.

## Trafnidiaeth

**5.4** Cafwyd trosglwyddiadau adnoddau lluosog gwerth cyfanswm o £4,500k rhwng BELs o fewn y MEG Trafnidiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Trosglwyddiad o £2,000k i'r BEL Cymorth Gwasanaethau Rheilffyrdd o BEL Taliadau Contractiol y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol;
- Trosglwyddiad o £2,500k i'r BEL Cymorth Gwasanaethau Bysiau o BEL Taliadau Contractiol y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol.

## Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

**5.5** Cafwyd trosglwyddiadau lluosog gwerth cyfanswm o £4,826k rhwng BELs o fewn y MEG Newid Hinsawdd a Materion Gwledig. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Trosglwyddo £1,580k i BEL Cyfoeth Naturiol Cymru o'r BEL Buddsoddi Gwledig;
- Trosglwyddo £1,575k i'r BEL Gweinyddu Taliadau Gwledig Cymru o'r BEL Cynlluniau Buddsoddi Gwledig.

Cafwyd trosglwyddiadau cyfalaf gwerth cyfanswm o £27,173k rhwng BELs o fewn y MEG Newid Hinsawdd a Materion Gwledig. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Trosglwyddo £7,900k i'r BEL Rheoli Perygl Llifogydd a Chyflawni Polisi Dŵr;

- £6,380k i'r BEL TGCh Taliadau Gwledig o'r BEL Cynlluniau Buddsoddi Gwledig;
- Trosglwyddo £4,000k i BEL Gwasanaethau Ynni Llywodraeth Cymru;
- Trosglwyddo £4,000k i BEL Cyfoeth Naturiol Cymru;
- Trosglwyddo £2,500k i'r BEL Lleoedd Lleol ar gyfer Natur o'r BEL Twf Gwyrdd Buddsoddi i Arbed;
- Trosglwyddo £1,543k i'r BEL TGCh Taliadau Gwledig o'r BEL Cynlluniau Buddsoddi Gwledig;

### Yr Economi, Ynni a Chynllunio

**5.6** Cafwyd trosglwyddiadau adnoddau lluosog gwerth cyfanswm o £17,451k rhwng BELs o fewn MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio. Mae'r rhain yn cynnwys:

- £7,352k i BEL Cadw o'r BEL Seilwaith Eiddo;
- £2,800k i BEL Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd o'r BEL Seilwaith Eiddo;
- £2,500k i BEL Strategaeth Ddigidol i Gymru o'r BEL Seilwaith Eiddo;
- Trosglwyddo £1,400k i'r BEL Cymorth i Ddiwylliant a Chwaraeon Lleol o'r BEL Seilwaith Eiddo;
- Trosglwyddo £1,300k i'r BEL Allforio, Masnach a Mewnfuddsoddi o'r BEL Seilwaith Eiddo.

Cafwyd trosglwyddiadau cyfalaf lluosog gwerth cyfanswm o £34,914k rhwng BELs o fewn MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- £15,350k i BEL Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd o'r BEL Seilwaith TGCh;
- £5,000k i BEL Chwaraeon Cymru o BEL Cadw;
- £4,300k i'r BEL Ynni Gwyrdd o'r BEL Busnes a Datblygu Economaidd Rhanbarthol;
- £2,907k i BEL Ynni Cymru o'r BEL Ynni Gwyrdd;
- £2,500k i BEL Cymru Greadigol o'r BEL Seilwaith Eiddo;

- £2,000k i'r BEL Twristiaeth o'r BEL Seilwaith Eiddo.

## Cyfiawnder Cymdeithasol

**5.7** Mae trosglwyddiadau adnoddau lluosog gwerth cyfanswm o £7,548k wedi digwydd rhwng BELs o fewn y MEG Cyfiawnder Cymdeithasol. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Trosglwyddo £2,537k i'r BEL Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol o'r BEL Cynhwysiant Ariannol;
- Trosglwyddo £2,965k i'r BEL Cymorth i'r Sector Gwirfoddol a Gwirfoddoli;
- Trosglwyddo £1,005k o'r BEL Cefnogi Cymunedau.

Mae trosglwyddiadau cyfalaf gwerth cyfanswm o £1,336k wedi'u trosglwyddo o'r BEL Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr i nifer o BELs o fewn y MEG Cyfiawnder Cymdeithasol; mae pob trosglwyddiad unigol yn llai na £1m.

# 6. Newidiadau i Gronfeydd Wrth Gefn

**6.1** Mae'r gyllideb yn cysoni nifer o ddyraniadau i gronfeydd wrth gefn ac ohonynt. Manylir ar y prif ddyraniadau adnoddau a chyfalaf cyffredinol ym Mhennod 2. Ceir crynodeb o'r effaith net ar bob MEG yn nhabl 6.1 isod ac mae rhestr lawn sy'n rhoi manylion yr holl symudiadau o ran cronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru ar gael ar y wefan.

## Dyraniadau o Gronfeydd Adnoddau Cyllidol Wrth Gefn

**6.2** Mae dyraniadau gwerth cyfanswm o £443,969k wedi'u gwneud o gronfeydd adnoddau cyllidol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon. Dyma'r cyfansymiau ar gyfer pob MEG:

- Iechyd a Gofal Cymdeithasol - £363,450k.
- Tai a Llywodraeth Leol - £21,804k.
- Addysg - £16,928k.
- Trafnidiaeth - £6,874k.
- Newid Hinsawdd a Materion Gwledig - £7,633k.
- Yr Economi, Ynni a Chynllunio - £19,195k.
- Cyfiawnder Cymdeithasol - £1,174k.
- Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu - £6,911k.

## Trosglwyddiadau i Gronfeydd Adnoddau Cyllidol Wrth Gefn

**6.3** Mae trosglwyddiadau gwerth cyfanswm o £73,237k wedi'u gwneud i gronfeydd adnoddau cyllidol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon. Dyma'r cyfansymiau ar gyfer pob MEG:

- Addysg - £2,880k.
- Newid Hinsawdd a Materion Gwledig - £357k. .
- Yr Economi, Ynni a Chynllunio - £70,000k.

### Dyraniadau o Gronfeydd Adnoddau Anghyllidol Wrth Gefn

**6.4** Mae trosglwyddiadau gwerth cyfanswm o £2,796,006k wedi'u gwneud o gronfeydd adnoddau anghyllidol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon. Dyma'r cyfansymiau ar gyfer pob MEG:

- Iechyd a Gofal Cymdeithasol - £18,424k;
- Addysg - £2,584,373k yn ymwneud â newid mewn benthyciadau i fyfyrwyr;
- Trafnidiaeth - £129,661k mewn perthynas â dibrisiant yn ymwneud â Trafnidiaeth Cymru;
- Newid Hinsawdd a Materion Gwledig - £63,542k;
- Yr Economi, Ynni a Chynllunio - £6k.

### Trosglwyddiadau i Gronfeydd Adnoddau Anghyllidol Wrth Gefn

**6.5** Mae trosglwyddiadau gwerth cyfanswm o £5,044k wedi'u gwneud i gronfeydd adnoddau anghyllidol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon. Dyma'r cyfansymiau ar gyfer pob MEG:

- Iechyd a Gofal Cymdeithasol - £3,901k;
- Newid Hinsawdd a Materion Gwledig - £1,143k.

### Dyraniadau o Gronfeydd Cyfalaf Cyffredinol Wrth Gefn

**6.6** Mae dyraniadau gwerth cyfanswm o £196,431k wedi'u gwneud o gronfeydd cyfalaf cyffredinol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon. Dyma'r cyfansymiau ar gyfer pob MEG:

- Iechyd a Gofal Cymdeithasol – £11,682k.
- Tai a Llywodraeth Leol - £4,828k.
- Addysg - £60,500k.
- Trafnidiaeth - £97,853k.
- Newid Hinsawdd a Materion Gwledig - £9,063k.
- Yr Economi, Ynni a Chynllunio - £11,235k.
- Cyfiawnder Cymdeithasol - £1,270k.

## Dyraniadau i Gronfeydd Cyfalaf Cyffredinol Wrth Gefn

**6.7** Mae trosglwyddiadau gwerth cyfanswm o £140,515k wedi'u gwneud i gronfeydd cyfalaf cyffredinol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon. Dyma'r cyfansymiau ar gyfer pob MEG:

- Iechyd a Gofal Cymdeithasol - £65,000k.
- Tai a Llywodraeth Leol - £37,933k.
- Newid Hinsawdd a Materion Gwledig - £17,480k.
- Yr Economi, Ynni a Chynllunio - £20,102k.

## Dyraniadau o Gronfeydd Cyfalaf Trafodiadau Ariannol Wrth Gefn

**6.8** Cafwyd pedwar trosglwyddiad net gwerth cyfanswm o £8,015k o gronfeydd cyfalaf trafodiadau ariannol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon: Dyma'r cyfansymiau ar gyfer pob MEG:

- Tai a Llywodraeth Leol - £1,200k mewn perthynas â chyllid ar gyfer Cartrefi Gwyrdd;
- Newid Hinsawdd a Materion Gwledig - £5,315k mewn perthynas â chyllid ar gyfer datgarboneiddio ac addasu yn y sector cyhoeddus.
- Cyfiawnder Cymdeithasol - £1,500k mewn perthynas â'r Gronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol.

## Dyraniadau i Gronfeydd Cyfalaf Trafodiadau Ariannol Wrth Gefn

**6. 9** Mae trosglwyddiadau yn ôl i'r cronfeydd cyfalaf wrth gefn trafodiadau ariannol yn y gyllideb atodol hon sy'n dod i gyfanswm o £32,000k o MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio sy'n ymwneud â £20,000k mewn perthynas â Morglawdd Caergybi a £12,000k i ad-dalu cyllid buddsoddi.

## Trosglwyddiadau Eraill â Chronfeydd Wrth Gefn

**6.10** Cafwyd trosglwyddiadau eraill â chronfeydd canolog nad ydynt yn effeithio ar y MEGs. Mae canlyniad net y rhain fel a ganlyn:

- Cynnydd o £7,696k mewn cronfeydd adnoddau cyllidol wrth gefn;
- Gostyngiad o £4,182k mewn cronfeydd cyfalaf cyffredinol wrth gefn.

**Tabl 6.1 - Newidiadau i Gronfeydd wrth gefn 2024-25 ers y Gyllideb Atodol Gyntaf a’r Dyraniadau o Gronfeydd wrth Gefn sy’n cael eu gwneud yn y Gyllideb Atodol hon**

| | £000oedd | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Adnoddau Cyllidol | Adnoddau Anghyllidol | Cyfanswm yr Adnoddau | Cyfalaf Cyffredinol | Cyfalaf Trafodiadau Ariannol | Cyfanswm Cyfalaf | Cyfanswm |
| **Cronfeydd wrth Gefn yn ôl y Gyllideb Atodol Gyntaf** | 1,849 | 339,732 | **341,581** | 37,581 | -13,720 | **23,861** | **365,442** |
| Trosglwyddiadau a Symiau Canlyniadol ers y Gyllideb Atodol Gyntaf | 124,692 | 2,455,756 | **2,580,448** | -664 | -6,165 | **-6,829** | **2,573,619** |
| Newid mewn Addasiadau i Ragolygon Trethi Datganoledig | 32,830 | 0 | **32,830** | 0 | 0 | **0** | **32,830** |
| Tynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru | 245,901 | 0 | **245,901** | 53,395 | 10,704 | **64,099** | **310,000** |
| **Cronfeydd Wrth Gefn Diwygiedig** | **405,272** | **2,795,488** | **3,200,760** | **90,312** | **-9,181** | **81,131** | **3,281,891** |
| **NEWIDIADAU ERAILL SY'N EFFEITHIO AR GRONFEYDD WRTH GEFN** | | | | | | | |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | -363,450 | -14,523 | **-377,973** | 53,318 | 0 | **53,318** | **-324,655** |
| Tai a Llywodraeth Leol | -21,804 | 0 | **-21,804** | 33,105 | -1,200 | **31,905** | **10,101** |
| Addysg | -14,048 | -2,584,373 | **-2,598,421** | -60,500 | 0 | **-60,500** | **-2,658,921** |
| Trafnidiaeth | -6,874 | -129,661 | **-136,535** | -97,853 | 0 | **-97,853** | **-234,388** |
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | -7,276 | -62,399 | **-69,675** | 8,417 | -5,315 | **3,102** | **-66,573** |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | 50,805 | -6 | **50,799** | 8,867 | 32,000 | **40,867** | **91,666** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfiawnder Cymdeithasol | -1,174 | 0 | **-1,174** | -1,270 | -1,500 | **-2,770** | **-3,944** |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | -6,911 | 0 | **-6,911** | 0 | 0 | **0** | **-6,911** |
| **NEWIDIADAU I MEGS SY'N EFFEITHIO AR GRONFEYDD WRTH GEFN** | **-370,732** | **-2,790,962** | **-3,161,694** | **-55,916** | **23,985** | **-31,931** | **-3,193,625** |
| **NEWIDIADAU ERAILL SY'N EFFEITHIO AR GRONFEYDD WRTH GEFN** | | | | | | | |
| Comisiwn y Senedd | 7,684 | 0 | **7,684** | -4,182 | 0 | **-4,182** | **3,502** |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | 16 | 0 | **16** | 0 | 0 | **0** | **16** |
| Y Comisiwn Etholiadol | -1 | 0 | **-1** | 0 | 0 | **0** | **-1** |
| Symiau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | -6 | 0 | **-6** | 0 | 0 | **0** | **-6** |
| **NEWIDIADAU ERAILL SY'N EFFEITHIO AR GRONFEYDD WRTH GEFN** | **7,693** | **0** | **7,693** | **-4,182** | **0** | **-4,182** | **3,517** |
| **Cronfeydd Wrth Gefn yn y Gyllideb hon** | **42,233** | **4,526** | **46,759** | **30,214** | **14,804** | **45,018** | **91,777** |

## Cronfa Wrth Gefn Cymru

**6.11** Mae'r balansau a ddelir yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru yn cael eu diweddaru bob blwyddyn ariannol i gymryd i ystyriaeth y symudiadau canlynol:

- Cynnydd oherwydd tanwariant sy'n codi ar ôl cyfrifo'r sefyllfa alldro terfynol ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol;
- Gostyngiadau oherwydd y symiau a dynnwyd i lawr o'r Gronfa Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn.

Mae Prif Ysgrifennydd y Trysorlys wedi hepgor y terfynau ar dynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru yn 2025-26 gan ganiatáu i Lywodraeth Cymru dynnu adnoddau a chyfalaf i lawr hyd at yr uchafswm sydd ar gael yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru.

Mae tabl 6.2 isod yn dangos y symiau a gadarnhawyd a ddelir ar hyn o bryd yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru.

### Tabl 6.2 - Balansau a ddelir ar hyn o bryd yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru

| | £'000 | | |
|---|---|---|---|
| **SYMUDIADAU** | **Adnoddau heb eu Neilltuo** | **Cyfalaf Cyffredinol** | **Cyfalaf Trafodiadau Ariannol** |
| Balans a ddygwyd ymlaen o 2024-25 | 285,901 | 53,395 | 10,704 |
| Tynnu i lawr yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2025-26 | -40,000 | 0 | 0 |
| Tynnu i lawr a gynhwysir yn y Gyllideb Atodol hon | -245,901 | -53,395 | -10,704 |
| **Y balans presennol sydd ar gael yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru** | **0** | **0** | **0** |

## 7. Cyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)

7.1 Mae’r cyllidebau AME a nodir yn y gyllideb atodol hon yn adlewyrchu’r rhagolygon diwethaf a ddarparwyd i Drysorlys EF ym mis Ionawr 2026. Mae'r newidiadau a wnaed ers i'r Gyllideb Atodol Gyntaf gael ei chymeradwyo yn cynnwys:

- Cynnydd net o £111,066k yng nghyllideb AME y MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol i adlewyrchu'r rhagolygon diweddaraf ar gyfer amhariadau a darpariaethau yn ymwneud â'r GIG yng Nghymru, sy'n cynnwys:
  - ➢ Cynnydd o £90,571k yn yr AME adnoddau;
  - ➢ Cynnydd o £20,495k yn yr AME cyfalaf.
- Cynnydd o £9,668k yng nghyllideb AME adnoddau'r MEG Tai a Llywodraeth Leol sy'n cynnwys:
  - ➢ £13,817k i adlewyrchu newid yn narpariaeth Pensiynau'r Gwasanaeth Tân;
  - ➢ -£4,149 mewn perthynas ag addasiadau gwerth teg Cymorth i Brynu.
- Cynnydd o £132,564k yng nghyllideb AME y MEG Addysg i adlewyrchu £200k mewn perthynas â'r ddarpariaeth drwgddyledion a'r rhagolygon diweddaraf ar gyfer Benthyciadau i Fyfyrwyr, sy'n cynnwys:
  - ➢ Cynnydd o £6,540k yn yr AME adnoddau;
  - ➢ Cynnydd o £126,024k yn yr AME cyfalaf.
- Cynnydd o £217,075 yn y MEG Trafnidiaeth, sy'n cynnwys:
  - ➢ £214,775k i adlewyrchu cynnydd yn amhariadau'r rhwydwaith ffyrdd;
  - ➢ £2,300 o amhariadau yn ymwneud â Trafnidiaeth Cymru

- Cynnydd sy'n gyfanswm o £30,173k yng nghyllideb AME adnoddau y MEG Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, sy'n cynnwys:
    - Cynnydd adnoddau o £28,700k mewn perthynas â'r amhariad yn ymwneud â choedwigaeth ac asedau biolegol;
    - Cynnydd adnoddau o £4,000k mewn perthynas â'r ddarpariaeth drwgddyledion;
    - gostyngiad adnoddau o -£2,000k mewn perthynas â darpariaethau pensiwn Cyfoeth Naturiol Cymru;
    - Gostyngiad cyfalaf o -£527k mewn perthynas â darpariaethau dadfeiliad Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Cynnydd o £21,000k yng nghyllideb AME adnoddau MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio sy'n cynnwys:
    - Cynnydd o £5,000k mewn perthynas ag amhariadau seilwaith sy'n gysylltiedig ag eiddo;
    - £10,000k mewn perthynas ag amhariadau seilwaith TGCh;
    - £6,000k mewn perthynas â darpariaethau cronfeydd cyllid busnes.

Mae Tabl 7.1 isod yn nodi'r cyllidebau AME presennol.

## Tabl 7.1 – Newidiadau i Ddyraniadau AME MEG Llywodraeth Cymru

| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG) | £000oedd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | ADNODDAU | | | CYFALAF | | |
| | Cyllideb Atodol 2025-26 Mehefin 2025 | Newid-iadau | Cyllideb Atodol 2025-26 Cynlluniau Newydd Chwefror 2026 | Cyllideb Atodol 2025-26 Mehefin 2025 | Newid-iadau | Cyllideb Atodol 2025-26 Cynlluniau Newydd Chwefror 2026 |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 262,953 | 90,571 | 353,524 | 6,500 | 20,495 | 26,995 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 1,112,062 | 9,668 | 1,121,730 | 0 | 0 | 0 |
| Addysg | -113,681 | 6,740 | -106,941 | 1,386,253 | 126,024 | 1,512,277 |
| Trafnidiaeth | 2,000 | 217,075 | 219,075 | 0 | 0 | 0 |
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | 7,000 | 30,700 | 37,700 | 0 | -527 | -527 |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | 66,525 | 21,000 | 87,525 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 226 | 0 | 226 | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 3,200 | 0 | 3,200 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y Dyraniad i Lywodraeth Cymru** | **1,340,285** | **375,754** | **1,716,039** | **1,392,753** | **145,992** | **1,538,745** |

## Atodiad 1 – Cysoni rhwng Cyllidebau'r Portffolios yn Nhablau'r Camau Gweithredu a'r rhai yng Nghynnig y Gyllideb

Mae'r Nodyn Esboniadol yn ategu Cynnig y Gyllideb Atodol, a gyhoeddir ochr yn ochr â'r ddogfen hon, sy’n nodi’r newidiadau i'r adnoddau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu defnyddio yn 2025-26 a'r arian parod y mae’n ceisio awdurdod i’w dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae'r tablau yn y nodyn hwn yn defnyddio cyfansymiau rheoli Trysorlys EF ac yn cyd-fynd â'r Tablau BEL.  Er hynny, mae'r ffigurau yng Nghynnig y Gyllideb Atodol yn cyd-fynd â'r Datganiad o Alldro Adnoddau a ddefnyddir yng nghyfrifon Llywodraeth Cymru ac sy'n cael ei baratoi ar sail ychydig yn wahanol.

Mae cyllideb weinyddol Llywodraeth Cymru yn cynnwys eitemau nad ydynt yn sgorio fel rhan o'r ‘Adnoddau sy’n Ofynnol’ gan Weinidogion Cymru. Mae'r Atodiad hwn yn darparu cysoniad rhwng y ddau yn ôl pob portffolio.

| | CYLLIDEB ATODOL 2025-26<br>£000oedd | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Iechyd a Gofal Cymdeith-asol** | **Tai a Llywod-raeth Leol** | **Addysg** | **Trafnid-iaeth** | **Newid Hinsawdd a Materion Gwledig** | **Economi, Ynni a Chyn-llunio** | **Cyfiawn-der Cymdeith asol** | **Gwas. Canolog a Gwein-yddu** | **CYFANSWM** |
| Adnoddau | 12,936,229 | 5,597,617 | 4,689,420 | 1,029,307 | 673,325 | 454,614 | 143,363 | 451,854 | 25,975,729 |
| Cyfalaf | 576,788 | 1,247,062 | 428,059 | 627,637 | 296,048 | 319,257 | 22,111 | 15,870 | 3,532,832 |
| AME Adnoddau | 353,524 | 1,121,730 | -106,941 | 219,075 | 37,700 | 87,525 | 226 | 3,200 | 1,716,039 |
| AME Cyfalaf | 26,995 | 0 | 1,512,277 | 0 | -527 | 0 | 0 | 0 | 1,538,745 |
| **CYFANSWM Y GWARIANT A REOLIR** | **13,893,536** | **7,966,409** | **6,522,815** | **1,876,019** | **1,006,546** | **861,396** | **165,700** | **470,924** | **32,763,345** |
| **Cysoni ag Adnoddau** | | | | | | | | | |
| Defnyddio Adnoddau – Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru | -61 | | -437 | | -48,573 | -38,566 | | | -87,637 |
| Benthyca â Chymorth | | -88,800 | | | | | | | -88,800 |
| Costau Casglu Derbyniadau o'r Gronfa Yswiriant Gwladol | -906 | | | | | | | | -906 |
| Ardrethi Annomestig Cenedlaethol sy'n Daladwy (a’r Costau Casglu) | | -1,083,172 | | | | | | | -1,083,172 |
| Taliadau Llog ar Fenthyciadau | | | | | | | | -16,249 | -16,249 |
| Y Fenter Cyllid Preifat (PFI) | | | | -15,000 | | | | | -15,000 |
| Symiau a Godir yn Uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | | -1,564 | | | | | | | -1,564 |
| **ADNODDAU Y GOFYNNWYD AMDANYNT** | **13,892,569** | **6,792,873** | **6,522,378** | **1,861,019** | **957,973** | **822,830** | **165,700** | **454,675** | **31,470,017** |

## Atodiad 2 – Geirfa

| | |
|---|---|
| **Adolygiad Gwariant** | O bryd i'w gilydd mae Trysorlys EF yn adolygu gwariant pob un o Adrannau Llywodraeth y DU ac yn pennu cyllidebau ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Mae cyllidebau ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig yn deillio o'r cyllidebau hyn drwy gyfrwng Fformiwla Barnett, sef y dull a ddefnyddir i gyfrifo'r gwariant cyhoeddus a ddyrennir i Gymru i adlewyrchu'r newidiadau yn lefelau'r gwariant a ddyrennir i wasanaethau cyhoeddus yn Lloegr. |
| **Cam gweithredu** | O fewn pob Maes Rhaglen Wariant (SPA), dyrennir cyllidebau i nifer o is-raglenni a elwir yn Gamau Gweithredu. |
| **CNLC** | Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae enghreifftiau'n cynnwys Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru. |
| **Cronfa Gyfunol Cymru** | Y cyfrif sy'n derbyn yr arian sydd i'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Senedd, yr Archwilydd Cyffredinol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn unol â phleidlais Senedd y DU. |
| **Cwmpasoedd** | Disgrifiadau o'r dibenion penodol y mae Gweinidogion Cymru wedi'u hawdurdodi gan Senedd Cymru i wario adnoddau arnynt. Caiff disgrifiadau o'r cwmpasoedd a'r terfynau o ran adnoddau eu cynnwys yn y cynigion ar gyfer y Cyllidebau Blynyddol ac Atodol. Mae'r cwmpasoedd yn cyfateb i'r MEGs. |
| **Cyfalaf** | Gwariant sy'n arwain yn bennaf at ased ffisegol, er enghraifft adeilad newydd. Mae gan gyllidebau DEL ac AME Llywodraeth Cymru derfynau gwahanol ar gyfer cyfalaf a refeniw. |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)** | Cyfanswm Rheoli gan Drysorlys EF yw hwn sy'n cynnwys cyfanswm y Terfyn Gwariant Adrannol ynghyd â Gwariant a Reolir yn Flynyddol. |
| **Cyllidebu adnoddau** | Mae cyllideb Llywodraeth Cymru yn cael ei phennu ar sail adnoddau sy'n deillio o wybodaeth am groniadau. Mae'r wybodaeth am groniadau yn mesur adnoddau wrth iddynt gael eu defnyddio yn hytrach na phan delir yr arian parod. Felly, er enghraifft, mae cyllidebu adnoddau yn cynnwys swm ar gyfer dibrisiant, ffordd o fesur yr asedau cyfalaf a ddefnyddiwyd neu a dreuliwyd. |

| | |
|---|---|
| **Cynnig y Gyllideb** | Y dull a ddefnyddir gan Senedd Cymru i roi awdurdod i Weinidogion Cymru wario adnoddau hyd at lefel benodol ar ddibenion penodedig ac i dynnu arian parod hyd at derfyn penodol o Gronfa Gyfunol Cymru. |
| **DEL Adnoddau Anghyllidol** (y cyfeirir ato weithiau fel 'adnoddau nad ydynt yn arian parod') | Mae'r gyllideb DEL Adnoddau Anghyllidol yn sgorio gwariant cyfredol yr adran mewn perthynas â dibrisiant ac amhariadau benthyciadau i fyfyrwyr. Mae DEL Adnoddau Anghyllidol wedi'i glustnodi ac ni ellir ei ddefnyddio i gyllido gwariant DEL adnoddau cyllidol. |
| **DEL Adnoddau Cyllidol** (y cyfeirir ato weithiau fel refeniw) | Y gyllideb DEL Adnoddau Cyllidol sy'n sgorio'r rhan fwyaf o wariant cyfredol yr adran. Cofnodir gwariant ar sail croniadau. Mae'n cynnwys gwariant ar gyflogau, caffael cyfredol, grantiau cyfredol a chymorthdaliadau. |
| **Derbyniadau** | Mae rhai rhannau o weithgarwch Llywodraeth Cymru yn creu incwm, er enghraifft, drwy werthu neu rentu asedau. Caiff y rhain eu cynrychioli yn y gyllideb fel ffigurau negyddol. |
| **Dibrisiant** | Y gostyngiad yng ngwerth ased yn sgil traul, oed a'r ffaith ei fod wedi darfod. O ran cyllidebu adnoddau, mae dibrisiant yn rhan o Derfyn Gwariant Adrannol (DEL) Llywodraeth Cymru ond eitem DEL adnoddau anghyllidol ydyw. |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)** | Gwariant na all yn rhesymol fod yn destun cyfyngiadau cadarn, amlflwyddyn yn yr un ffordd â DEL, ac sydd felly'n cael ei adolygu ddwywaith y flwyddyn fel rhan o brosesau Cyllideb ac Adroddiad Rhag-gyllidebol Trysorlys EF. Mae Gwariant a Reolir yn Flynyddol, fel rheol, yn cynnwys rhaglenni sy'n fawr, yn ansicr neu'n ymateb i'r galw; er enghraifft benthyciadau i fyfyrwyr. |
| **Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)** | O fewn pob Cam Gweithredu, dyrennir cyllidebau i nifer o is-grwpiau gwariant a elwir yn Llinellau Gwariant yn y Gyllideb. Mae tablau sy'n dangos cyllidebau ar lefel y BEL ar gael yn: https://www.llyw.cymru/cyllidebau-llywodraeth-cymru |

| | |
|---|---|
| **Prif Grŵp Gwariant (MEG)** | Caiff DEL Llywodraeth Cymru ei rannu'n nifer o Brif Grwpiau Gwariant. Ceir 8 MEG ar hyn o bryd: Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Tai a Llywodraeth Leol; Addysg; Trafnidiaeth; Newid Hinsawdd a Materion Gwledig; Yr Economi, Ynni a Chynllunio; Cyfiawnder Cymdeithasol; a Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu. |
| **Symiau a Godir yn Uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru** | Gwariant y mae'n ofynnol yn gyfreithiol ei godi'n uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru, ac nad yw felly'n sgorio yn erbyn cyllidebau Llywodraeth Cymru nac unrhyw gorff arall. Ymhlith y symiau uniongyrchol mae cyflog y Llywydd a'r Archwilydd Cyffredinol. |
| **Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)** | Terfyn y gyllideb amlflwyddyn ar gyfer Llywodraeth Cymru a bennir gan Drysorlys EF mewn Adolygiadau o Wariant. |
| **Trafodiadau Ariannol** | Mae trafodiadau ariannol wedi'u clustnodi o fewn y DEL Cyfalaf, a dim ond at ddibenion benthyciadau ac ecwiti y gellir eu defnyddio. |